***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Paragraff 1. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 2

## TROSGLWYDDO EIDDO A STAFF I GYMWYSTERAU CYMRU

1 (1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud un neu ragor o gynlluniau sy'n darparu—

(a) i staff Llywodraeth Cynulliad Cymru ddod yn aelodau o staff Cymwysterau Cymru, a

(b) i eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru gael eu trosglwyddo i Gymwysterau Cymru.

(2) Mae'r pethau y caniateir eu trosglwyddo o dan gynllun o dan yr Atodlen hon ("cynllun trosglwyddo") yn cynnwys—

(a) eiddo, hawliau a rhwymedigaethau na ellid eu trosglwyddo fel arall;

(b) eiddo a gaffaelir, a hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi, ar ôl i'r cynllun gael ei wneud.

(3) Caiff cynllun trosglwyddo wneud darpariaeth ganlyniadol, atodol, gysylltiedig, drosiannol neu ddarfodol, er enghraifft er mwyn—

(a) creu hawliau, neu osod rhwymedigaethau, mewn perthynas ag eiddo neu hawliau a drosglwyddir;

(b) gwneud darpariaeth ynghylch effaith barhaus pethau a wneir mewn cysylltiad ag unrhyw beth a drosglwyddir;

(c) gwneud darpariaeth ynghylch parhad pethau (gan gynnwys achosion cyfreithiol) sydd yn y broses o gael eu gwneud mewn cysylltiad ag unrhyw beth a drosglwyddir;

(d) gwneud darpariaeth ar gyfer rhannu perchenogaeth eiddo neu ddefnydd ohono;

(e) gwneud darpariaeth i gyfeiriadau at Lywodraeth Cynulliad Cymru neu Weinidogion Cymru mewn offeryn neu ddogfen arall mewn cysylltiad ag unrhyw beth a drosglwyddir gael eu trin fel cyfeiriadau at Gymwysterau Cymru;

(f) gwneud darpariaeth sydd yr un fath â darpariaeth a wneir gan y rheoliadau TUPE, neu sy'n debyg iddi, mewn achos pan na fo'r rheoliadau hynny yn gymwys mewn perthynas â'r trosglwyddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(1)(g)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Paragraff 1.